COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl183

Amseru: Arferol

Teitl: Cwmni argraffu ar gyfer Adroddiad Blynyddol 2019/2020 y Comisiynydd

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Llywodraethu / Cyllid

Crynodeb Gweithredol:

Disgwylir i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu gynhyrchu Adroddiad Blynyddol o'i weithgareddau yn erbyn blaenoriaethau ei Gynllun Heddlu a Throseddu a chyflenwad swyddogaethau statudol. Ysgrifennwyd Adroddiad Blynyddol 2019/2020 gan staff SCHTh, a dyluniwyd gan gwmni allanol a'i gyhoeddi ar-lein, ac am y tro cyntaf, mae wedi'i gynhyrchu fel cyfres o fideos

Rydym yn cydnabod na fydd gan bob un fynediad at y fersiynau ar-lein hyn o'r Adroddiad, felly gwnaed y penderfyniad i argraffu nifer fach o gopïau i fod ar gael i'r cyhoedd a'u partneriaid.

Gwnaethom gysylltu â nifer o gwmnïau argraffu lleol i ofyn am ddyfynbrisiau ar gyfer argraffu'r Adroddiad. Derbyniwyd amcanbrisiau gan dri chwmni, ac roedd gan y cwmni a ddewiswyd yr amcanbris rhataf ar gyfer y gwasanaeth sydd angen.

Argymhelliad:
Cytuno mai cwmni lleol Gwasg Gomer Cyf. fydd yn argraffu Adroddiad Blynyddol 2019/2020 y Comisiynydd.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 12/08/2020